# Llamu Ymlaen – Y Gweithlu – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3005A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae Strategaeth Drawsnewid y Cyngor yn blaenoriaethu Datblygu'r Gweithlu, ac mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg dda ar ei heriau cyfredol o ran y gweithlu, ond mae'n cydnabod bod angen iddo gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i gryfhau'r modd y mae'n cynllunio'r gweithlu.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Mae Strategaeth Drawsnewid y Cyngor yn blaenoriaethu Datblygu'r Gweithlu, ac mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg dda ar ei heriau cyfredol o ran y gweithlu, ond mae'n cydnabod bod angen iddo gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i gryfhau'r modd y mae'n cynllunio'r gweithlu 7

- Mae Strategaeth Drawsnewid y Cyngor yn blaenoriaethu Datblygu'r Gweithlu ac mae strategaethau ategol yn eu lle 7

- Mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg dda ar ei heriau cyfredol, ac mae'n ymdrin â'r effaith y mae'r pandemig yn ei chael ar ei weithlu, ond mae'n cydnabod bod angen iddo ffurfioli a chwblhau ei drefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu 8

- Mae gan y Cyngor drefniadau monitro ond mae angen iddo'i sicrhau ei hun sut y bydd yn mesur ac yn gwerthuso cynnydd o ran cyflawni ei gynlluniau ar gyfer y gweithlu 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Wrth i'r byd symud yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, fe wnaeth ein hadolygiad ystyried sut y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.

2 Fe wnaethom archwilio trefniadau a dull Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) ar y cyfan mewn perthynas â rheoli ei weithlu'n strategol. Roeddem yn ceisio ateb y cwestiwn 'A yw dull strategol y Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau yn y tymor byr a hwy?' Bu ein ffocws ar yr heriau a amlygwyd yn ystod y pandemig sydd wedi gwaethygu rhai materion hirsefydlog o ran y gweithlu.

3 Pan ddechreuom ni ein gwaith archwilio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad dros y tymor canolig y byddai cyrff cyhoeddus yn gallu dangos sut y mae'r Ddeddf yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach bron yn saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn yr ail gyfnod adrodd ar gyfer y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl yn awr i gyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl a'i bod wir yn trefnu'r hyn y maent yn ei wneud.

4 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:

- cael sicrwydd bod cynghorau'n rhoi trefniadau ar waith mewn perthynas â'u gweithlu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- egluro'r camau gweithredu y mae cynghorau'n eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i gryfhau eu trefniadau; ac
- ysbrydoli cynghorau a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach trwy gofnodi a rhannu enghreifftiau o arfer a gwersi nodedig a gwneud argymhellion priodol.

5 Mae hyn yn bwysig am bod y Cyngor yn buddsoddi symiau sylweddol yn ei weithlu. Dangosir peth gwybodaeth allweddol o 2020-21 yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: ffeithiau a ffigyrau allweddol sy'n ymwneud â'r gweithlu**

| Ffeithiau a ffigyrau allweddol sy'n ymwneud â'r gweithlu | |
|---|---|
| Nifer y staff | • 8,304[1] |
| Gwariant ar y gweithlu | • £246,604,000[2] |

6 Bydd y prosiect, sy'n rhan o'r gwaith a oedd wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Archwilio 2021 yn helpu i gyflawni'r dyletswyddau dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004.

7 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar y ffordd y mae staff yn gweithio. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio rhai o'r effeithiau hyn a'r ffordd y mae'r Cyngor yn cael budd o'r effeithiau cadarnhaol ac yn lliniaru'r risgiau sy'n deillio o'r effeithiau negyddol wrth gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

8 Cyflawnwyd y prosiect trwy gyfuniad o adolygiadau o ddogfennau, grwpiau ffocws a chyfweliadau â swyddogion ac Aelodau. Fe gynhaliom ni'r adolygiad rhwng mis Chwefror 2022 a mis Mawrth 2022.

## Yr hyn a ganfuom

9 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: 'A yw dull strategol y Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau yn y tymor byr a hwy? Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi canfod rhai materion a gododd o ganlyniad i effaith uniongyrchol y pandemig yn ogystal â rhai materion o ran cynllunio gweithredol a waethygwyd gan y pandemig.

10 Ar y cyfan, canfuom fod Strategaeth Drawsnewid y Cyngor yn blaenoriaethu Datblygu'r Gweithlu, a bod y Cyngor yn cynnal trosolwg dda ar ei heriau cyfredol o ran y gweithlu, ond ei fod yn cydnabod bod angen iddo gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i gryfhau'r modd y mae'n cynllunio'r gweithlu.

11 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae Strategaeth Drawsnewid y Cyngor yn blaenoriaethu Datblygu'r Gweithlu ac mae strategaethau ategol yn eu lle;

[1] Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021-2024
[2] Datganiad Cyfrifon 2020-21

- mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg dda ar ei heriau cyfredol, ac mae'n ymdrin â'r effaith y mae'r pandemig yn ei chael ar ei weithlu, ond mae'n cydnabod bod angen iddo ffurfioli a chwblhau ei drefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu; ac
- mae gan y Cyngor drefniadau monitro ond mae angen iddo'i sicrhau ei hun sut y bydd yn mesur ac yn gwerthuso cynnydd o ran cyflawni ei gynlluniau ar gyfer y gweithlu.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Cynlluniau'r gweithlu ac olyniaeth, monitro ac adolygu**<br>A1 Wrth ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer y gweithlu ar lefel gwasanaethau, dylai'r Cyngor wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau, ac yn benodol dylai sicrhau eu bod:<br>• yn adeiladu ar ei brofiad o bandemig COVID-19;<br>• yn ystyried tueddiadau tymor hwy a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau a defnydd effeithlon o'r gweithlu;<br>• yn gyson â chynlluniau a deilliannau strategol eraill;<br>• yn ystyried anghenion staff, defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid, ac<br>• yn nodi mesurau perfformiad CAMPUS a threfniadau monitro ac adrodd priodol. |

# Adroddiad manwl

## Mae Strategaeth Drawsnewid y Cyngor yn blaenoriaethu Datblygu'r Gweithlu, ac mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg dda ar ei heriau cyfredol o ran y gweithlu, ond mae'n cydnabod bod angen iddo gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i gryfhau'r modd y mae'n cynllunio'r gweithlu

### Mae Strategaeth Drawsnewid y Cyngor yn blaenoriaethu Datblygu'r Gweithlu ac mae strategaethau ategol yn eu lle

**Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:**

12 Mae'r Cyngor wedi datblygu Strategaeth Drawsnewid, '#Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd'. Fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth ym mis Mehefin 2019. Mae'r Cyngor yn disgrifio'r Strategaeth fel, 'model gweithredu 'awdurdod cyfan' newydd i sicrhau Bwrdeistref Sirol Caerffili gydnerth ar gyfer y dyfodol'. Mae'r Strategaeth yn adlewyrchu uchelgais y Cyngor i drawsnewid yn gyflym. Mae'r Strategaeth yn rhaglen eang o newid, gan gynnwys strategaeth fasnacheiddio a buddsoddi, prosiectau llunio lle (er enghraifft Ysgolion yr 21ain Ganrif a Chartrefi Seibiant) a datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu.

13 Mae'r strategaeth yn nodi manylion y model gweithredu newydd a ategir gan Gynllun Gweithredu Strategol. Ym mis Gorffennaf 2020, fe gytunodd y Cabinet ar gyfres o ddeg adolygiad corfforaethol i gryfhau'r dull newydd sydd wedi'i ymgorffori yn y Strategaeth Drawsnewid ac i ystyried newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau sydd wedi dod i'r amlwg o ymateb y Cyngor i'r pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i drefniadau datblygu'r gweithlu a gweithio hyblyg ar gyfer staff a nodir isod.

14 Ym mis Medi 2021, mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Datblygu'r Gweithlu 2021-2024. Diben y strategaeth yw 'datblygu gweithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol', ac mae'n canolbwyntio ar bedair thema allweddol a ategir gan Gynllun Gweithredu'r Gweithlu:

- 'Canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig;
- 'Rheoli talent a chreu cyfle';
- 'Gwerthfawrogi ein cyflogeion; a hefyd
- 'Cyflawni ein potensial'.

15 Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu Strategaeth Lles Cyflogeion 2021-24, sy'n nodi sut y bydd rhanddeiliaid yn cydweithio i gefnogi iechyd a lles cyflogeion yn llawn. Yn enwedig mewn ymateb i'r pryder cynyddol gan y Cyngor ynglŷn ag iechyd meddwl, a'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar gyflogeion.

16 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried yr hirdymor. Fel a nodir uchod, mae Strategaeth Datblygu Gweithlu'r Cyngor 2021-24 a Strategaeth Lles Cyflogeion y Cyngor 2021-24 yn cwmpasu cyfnod byr. Er bod y strategaethau'n nodi camau gweithredu sy'n flaenoriaeth ac yn amlygu ymdrechion a wneir i drawsnewid datblygiad y gweithlu, bydd angen i'r Cyngor ystyried y sgiliau, yr wybodaeth a'r capasiti y bydd eu hangen arno yn awr ac yn y dyfodol er mwyn iddo allu dylunio cynlluniau'r gweithlu sy'n cyflawni amcanion byrdymor ac yn gwireddu uchelgeisiau tymor hwy.

17 Yng nghyfnod cynnar y pandemig, fe wnaeth llawer o staff addasu i weithio gartref. Nid oedd rhai'n gallu gweithio gartref am nad oedd y gwasanaethau'n gallu cael eu darparu o bell, ac fe adleolwyd rhai aelodau o staff i ddyletswyddau eraill. Fe wnaeth y newid hwn mewn arferion gweithio gyflymu'r broses o drawsnewid fel rhan o adolygiad Gweithio Hyblyg y Cyngor. Mae'n cynnwys nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys diffinio'i ddull gweithio hyblyg, ac adolygu polisïau yr effeithir arnynt gan unrhyw newidiadau.

18 Ym mis Gorffennaf 2021, fe gymeradwyodd y Cyngor gyllid o £168,000 i benodi staff am gyfnod penodedig i fuddsoddi yng nghapasiti tîm Datblygu'r Gweithlu. Mae penodi rheolwyr datblygu'r gweithlu'n ei gwneud yn bosibl rhoi mwy o ffocws ar flaenoriaethau allweddol Strategaeth Datblygu'r Gweithlu. Fodd bynnag, wrth ystyried maint ei uchelgais, mae angen i'r Cyngor ei sicrhau ei hun ei fod wedi darparu digon o adnoddau ar gyfer swyddogaeth datblygu'r gweithlu i gyflawni trawsnewid cyflym.

19 Mae'r Cyngor wedi nodi'r gweithlu fel risg uchel yn ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'n cynnwys recriwtio a chadw staff ar draws y Cyngor cyfan, yn enwedig penodi staff i swyddi allweddol sy'n her sylweddol ac yn dechrau effeithio ar ddarparu rhai gwasanaethau. Mae'r gofrestr risgiau'n cynnwys camau lliniaru byrdymor a rhai camau lliniaru tymor hwy, a bydd angen i'r Cyngor ystyried goblygiadau'r rhain wrth adolygu strategaeth y gweithlu.

## Mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg dda ar ei heriau cyfredol, ac mae'n ymdrin â'r effaith y mae'r pandemig yn ei chael ar ei weithlu, ond mae'n cydnabod bod angen iddo ffurfioli a chwblhau ei drefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu

### Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

20 Fel a nodwyd ym **mharagraff 18**, mae'r Cyngor wedi ychwanegu capasiti at dîm Datblygu'r Gweithlu i gryfhau ei ddull datblygu sefydliadol, ei oruchwyliaeth ar faterion y gweithlu a gwasanaethau cymorth ym maes cynllunio'r gweithlu.

21 Fodd bynnag, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i ddygymod â'r pandemig gan barhau i ddarparu gwasanaethau allweddol. Er bod y Cyngor wedi ymateb i'r pandemig i sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn cael eu darparu, mae'n naturiol bod

cynnydd tuag at ei gamau gweithredu tymor hwy ar gyfer y gweithlu wedi cael ei arafu.

22 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod arno angen trefniadau cynllunio'r gweithlu mwy cyflawn i helpu i adnabod anghenion ei wasanaethau yn y dyfodol o ran y gweithlu. Er enghraifft, roedd y swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n ymwybodol o'r angen i fod â chynlluniau'r gweithlu a chynlluniau olyniaeth ar lefel gwasanaethau. Nid yw'r Cyngor wedi rhoi dull ffurfiol ar waith eto i weithredu ar hyn.

23 Serch hynny, disgrifiodd swyddogion eu hymrwymiad i sefydlu trefniadau cynllunio'r gweithlu ffurfiol fel rhan o fframwaith cynllunio'r gweithlu newydd y Cyngor sy'n adlewyrchu'r arfer da a nodwyd gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD). Ar adeg ein gwaith maes, dywedwyd wrthym fod y fframwaith newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac y dylai gael ei gyflwyno ym mis Medi 2022.

24 Mae'r pandemig wedi amlygu materion o ran y gweithlu megis anhawster recriwtio a chadw staff ar draws nifer o wasanaethau, gweithlu sy'n heneiddio, y risg o golli profiad sefydliadol, a'r angen i'r Cyngor addasu ei ffyrdd o weithio i fod yn fwy hyblyg wrth ddarparu gwasanaethau. Cyfeiriodd swyddogion ac aelodau at heriau cyfredol a nifer o ysgogwyr ar gyfer newid sy'n debygol o ddylanwadu ar weithlu'r dyfodol, gan ddangos ystyriaeth i dueddiadau tymor hwy .

25 Wrth fynd i'r afael â'i faterion o ran y gweithlu, mae'r Cyngor wedi dadansoddi ei weithlu cyfredol ac mae wrthi'n ystyried risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r gweithlu ar draws y Cyngor cyfan. Rydym wedi gweld dogfennaeth sy'n nodi'r heriau o ran recriwtio a chadw sy'n wynebu'r Cyngor ar gyfer pob cyfarwyddiaeth a'r camau sy'n cael eu cymryd i geisio goresgyn yr heriau hynny. Er enghraifft, ceir heriau recriwtio ym maes Gofal Cymdeithasol, Addysg, a'r gwasanaethau hynny lle mae angen sgiliau technegol sy'n brin, megis Gwasanaethau Digidol, Cyfieithu a Pheirianneg Sifil. I rai, mae'r pandemig a defnydd cynyddol o fynediad o bell wedi galluogi staff i weithio mewn rhannau eraill o Gymru neu'r DU heb yr angen i gymudo'n ddyddiol, sy'n golygu bod y Cyngor yn gallu amcanu at ddenu recriwtiaid newydd o bell os yw'n dymuno. Bydd angen i'r Cyngor ystyried pa mor bell y mae'n rhesymol mynd i recriwtio a beth yw'r goblygiadau ar gyfer gwahanol wasanaethau.

26 Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais ar 'dyfu ei dalent ei hun' trwy ddarparu cyfleoedd prentisiaeth. Yn ei gyfarfod ar 24 Chwefror 2022, fe gymeradwyodd y Cyngor llawn gyllideb o £250,000 ar gyfer sefydlu cynllun prentisiaeth newydd ar draws y Cyngor i helpu i fynd i'r afael â phrinderau o ran sgiliau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn y dyfodol. Mae hyn yn ychwanegol at fuddsoddiad unigol o £500,000 y cytunwyd arno'n flaenorol yn 2021-22.

27 Mae'r Cyngor wedi ystyried yr amgylchedd ehangach y mae ei weithlu'n gweithredu ynddo. Mae'n credu bod cystadleuaeth am staff wedi cynyddu ar y lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dywedodd swyddogion wrthym eu bod yn gweld cyflogeion yn symud i sefydliadau eraill lle'r oedd cyflogau'n fwy cystadleuol.

28 Datrysiad byrdymor y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio i geisio mynd i'r afael â'r mater hwn yw talu cymhorthdal y farchnad, er enghraifft i Weithwyr Cymdeithasol. Taliad ychwanegol dros dro am gyfnod penodedig yw hwn, a roddir ar ben cyflog

sylfaenol unigolyn i godi cyfanswm y cyflog blynyddol ar gyfer y rôl i gyfradd y farchnad.

29 Mae’r Cyngor yn nodi bod ei strwythur cyflog a graddio’n her sylweddol ac efallai nad yw’n addas ar gyfer y dyfodol. Rydym yn deall bod y Cyngor yn archwilio opsiynau i sicrhau bod ei strwythur cyflog a graddio’n gynaliadwy.

30 Ceir materion eraill ehangach mewn perthynas â recriwtio a chadw hefyd megis prinderau sgiliau y gallai fod o fudd ymdrin â hwy ar lefel genedlaethol yn ogystal ag ar lefel ranbarthol a lleol. Dylai’r Cyngor sicrhau bod ei brosesau ar gyfer cynllunio’r gweithlu yn y dyfodol yn mynd ati’n weithredol i ystyried a helpu i ymdrin â’r tueddiadau hirdymor posibl hyn o ran y gweithlu yn ogystal â mynd i’r afael â materion cyfredol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion newidiol.

31 Mae’r Cyngor yn gwerthuso’i ddull mewn perthynas â swydd-ddisgrifiadau ar gyfer rhai swyddi i gynyddu i’r eithaf y tebygolrwydd o ddenu’r ymgeiswyr cywir; hefyd, mae’r Cyngor wedi nodi bod angen iddo weithio gydag ysgolion Cymraeg fel un modd i ymdrin ag anhawster recriwtio i rai swyddi sy’n cynnwys Cymraeg fel gofyniad hanfodol.

32 O ran cydweithio, ceir enghreifftiau o’r Cyngor yn gweithio gydag eraill i ddarparu gwasanaethau, er na chafodd rhai o’r rhain eu hysgogi’n benodol gan y pandemig. Mae rhai, megis y cytundeb diweddar i’r Cyngor ddarparu gwasanaethau cyfreithiol ar gyfer Gwasanaethau Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, yn helpu i fynd i’r afael â heriau o ran recriwtio i rolau proffesiynol. Mae’r Cyngor wedi cymryd y cyfle i weithio ar draws ffiniau sefydliadol trwy ddatblygu cymhwyster Arweinyddiaeth Gydweithredol gyda Heddlu Gwent. Hefyd, mae gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn cefnogi’r Tîm Cyflogaeth sy’n gweithio gyda phobl ddi-waith yn y Fwrdeistref Sirol trwy raglenni megis Twf Swyddi Cymru, i benodi nifer o leoliadau trwy’r Cynllun Kickstart.

33 Mae Strategaeth y Gweithlu 2021-24 yn ymgorffori camau gweithredu mewn dogfennau strategol allweddol eraill megis y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020-2024), y Strategaeth Cwsmeriaid a Digidol 2019-2023, y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2019-2022, a’r Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-2025. Wrth i strategaethau newydd gael eu datblygu ac i rai presennol gael eu hadolygu, dylai’r Cyngor sicrhau ei fod yn integreiddio’r holl strategaethau corfforaethol perthnasol yn llawn, er enghraifft ei Strategaeth Rheoli Asedau 2019-2024 a’i Strategaeth Ddatgarboneiddio.

34 Mae’r Cyngor wedi ystyried sut y mae’n cynnwys eraill wrth drefnu ei Weithlu. Mae’r Cyngor wedi ymgysylltu â staff i ddeall sut y mae arnynt eisiau gweithio yn y dyfodol. Cynhaliodd Arolwg Gweithio Hyblyg ym mis Mehefin 2020 a mis Mai 2021. Yn y ddau arolwg, dynododd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr hoffent weithio mewn ffordd fwy hyblyg yn y dyfodol.

35 Mae’r Cyngor wedi ymgynghori â rhanddeiliaid, megis yr Undebau Llafur, ynghylch Strategaeth Datblygu’r Gweithlu 2021-24 a Strategaeth Lles Cyflogeion 2021-24 ac mae’n cwrdd yn rheolaidd i drafod cynnydd. Dylai’r Cyngor ei sicrhau ei hun ei fod yn cynnwys rhanddeiliaid ar y cyfle cynharaf i ystyried pa mor dda y mae’n deall yr anghenion a’r heriau sy’n wynebu rhanddeiliaid i oleuo dyluniad unrhyw strategaethau.

36 Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar gynorthwyo rheolwyr i reoli mewn ffordd hyblyg ac mae'n sefydlu partneriaeth weithio gyda'r Brifysgol Agored i ddatblygu darpariaeth ddysgu ar-lein ar gyfer ei reolwyr yn hyn o beth. Mae Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gweithlu'n nodi mai un o'r camau gweithredu sy'n flaenoriaeth yw datblygu cysylltiadau â darparwyr hyfforddiant preifat, colegau lleol a phrifysgolion.

37 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod lle i wella o ran ei arlwy Dysgu a Datblygu. Ar adeg ein gwaith maes, disgrifiodd swyddogion y nod i fod â dull corfforaethol, cydgysylltiedig o ran Dysgu a Datblygu ar draws y Cyngor, gan dynnu'r cyfrifoldeb am ddarpariaeth ddysgu oddi ar wasanaethau. Eglurodd swyddogion mai'r rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn darparu arlwy dysgu a datblygu gynhwysfawr ar gyfer ei gyflogeion i wella'u sgiliau a chyflawni eu potensial.

## Mae gan y Cyngor drefniadau monitro ond mae angen iddo'i sicrhau ei hun sut y bydd yn mesur ac yn gwerthuso cynnydd o ran cyflawni ei gynlluniau ar gyfer y gweithlu

### Wrth ddod i'r casgliad hwn canfuom fel a ganlyn:

38 Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cael adroddiadau ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu fel Strategaeth Datblygu'r Gweithlu ac absenoldeb oherwydd salwch. Dywedwyd wrthym fod Rheolwyr Datblygu'r Gweithlu'n cwrdd â Phenaethiaid Gwasanaeth i drafod eu materion o ran y gweithlu.

39 Mae trefniadau monitro yn eu lle ar gyfer Strategaeth y Gweithlu. Mae Grŵp y Strategaeth Adnoddau Dynol yn monitro'r broses o gyflawni'r camau gweithredu trwy gyfarfodydd rheolaidd ac mae'n adrodd wrth Fwrdd Rhaglen Tîm Caerffili. Cyflwynir adroddiad ar Strategaeth y Gweithlu i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi ac Adnoddau hefyd.

40 Er bod camau gweithredu eglur wedi'u nodi, mae cyfle i ymgorffori targedau mesuradwy i egluro sut y bydd cynnydd yn erbyn cynlluniau'r gweithlu'n cael ei fesur a chofnodi'r cyfraniad at ddeilliannau ehangach (er enghraifft, datgarboneiddio, gweithio hyblyg a digidol).

41 Mae gan y Cyngor ddata ar y gweithlu megis proffil oedran, cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch, hyd gwasanaeth ac mae'n datblygu Dangosfwrdd Gwybodaeth y Gweithlu. Bydd y Dangosfwrdd yn cefnogi'r broses o gynllunio'r gweithlu trwy alluogi rheolwyr i ymchwilio ymhellach i dueddiadau mewn data ar berfformiad.

42 Fel a grybwyllwyd ym **mharagraff 23**, mae'r Cyngor yn cynhyrchu Fframwaith Cynllunio'r Gweithlu i roi cymorth i ddatblygu cynlluniau'r gweithlu. Nid ydym wedi gweld y fframwaith drafft ac ni allwn benderfynu a yw'r Cyngor wedi dylunio prosesau gwerthuso eglur a mesuradwy fel rhan o bob un o gamau'r fframwaith. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i'w sicrhau ei hun ei fod yn ystyried ac yn ymateb i faterion cynllunio'r gweithlu a'r galw am wasanaethau mewn modd priodol ac felly'n rheoli ei risgiau'n effeithiol. Dywedodd y swyddogion y siaradom ni gyda hwy

wrthym y dylai cynllunio'r gweithlu fod yn broses barhaus ac y byddai cynlluniau'r gweithlu yn y dyfodol yn 'ddogfennau byw', gan gael eu diweddaru wrth eu hadolygu.

43 Mae swyddogion wedi cyfranogi'n weithredol mewn rhwydweithiau Adnoddau Dynol rhanbarthol ac wedi parhau i gwrdd â chymheiriaid yn ystod y pandemig. Dylai'r Cyngor archwilio pa un a oes cyfleoedd i feincnodi data a allai ddarparu mewnwelediad defnyddiol i berfformiad unigol y Cyngor ac a all ganfod cyfleoedd i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

44 Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno cyfleoedd i weithio'n wahanol, ac yn awr mae angen i'r Cyngor ystyried ei anghenion o ran gweithlu'r dyfodol. Wrth i'r Cyngor ail-lunio'i fusnes, mae ganddo gyfleoedd i fod yn uchelgeisiol a nodi sut allai gweithlu'r dyfodol edrych. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn ystyried y galw am wasanaethau yn yr hirdymor. Bydd proses wedi'i gwreiddio ar gyfer cynllunio'r gweithlu'n helpu holl wasanaethau'r Cyngor i nodi sut y mae'r dyfodol yn edrych.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.